

Rhan 1.

(Borrow my Garden, dim dyddiad)

Rhan 2 -**Nodwedd 1 –**

Gwelwyd yn y llun wrth i'r haul tywynnu fod yna gysgod enfawr yn dod oddi ar y goeden. Mae hyn yn galluogi trafodaeth yn gyntaf ble mae'r haul ac os ydy'r cysgod yn symud ar draws y diwrnod. Ble mae'r cysgod yn y bore a ble mae'r cysgod erbyn diwedd y prynhawn.

Gallwn weld fod y goeden yn 'enfawr', mae hyn yn galluogi geirfa enfawr, fawr, bach a bychain, felly geirfa fathemategol yn disgrifio'r cysgod yn y cae. Dyma ble gallwn ychwanegu celfi i wneud gwahanol gysgodion yn y cae neu fynd o amgylch i edrych am adnoddau i'w ddefnyddio i wneud cysgodau. Wrth ychwanegu blociau o goed gall y plant adeiladu tŵr i wneud gwahanol siapiau er mwyn creu cysgod. Byddai modd adeiladu'r clociau pren i wneud tŵr byr a hefyd tŵr hir. Byddai hyn yn gallu ehangu'r eirfa o fawr a bach i hir a byr.

Er mwyn symud ymlaen i siapiau 3d byddai darnau o bren trwchus yn fuddiol i ehangu at eirfa fathemategol sydd yn gyd fynd gyda chreu ac adeiladu cysgodau. Byddai modd adeiladu wrth ddefnyddio'r blociau 3d i greu siâp 3d. Yn amlwg byddai hyn yn dibynnu ar oedran y plant, plant ieuengaf siapiau syml 2d ac yna symud ymlaen i bob math o siapiau 3d. Defnyddio deunyddiau naturiol i ddal sylw'r plant er mwyn ei wneud mor ymarferol ag sy'n bosibl. Wrth gyfuno adnoddau naturiol mae hyn yn ffordd holistaidd i blant i ddysgu ac i ehangu ar ei brofiadau a datblygiad nhw fel unigolion. Tasgau eang sydd yn rhoi'r cyfleoedd i'r plant i gymryd arweinyddiaeth i fod yn annibynnol, byddai hyn yn rhoi rhyddid i'r plant i feddwl yn greadigol ac i ddatrys problemau.

Wrth i'r plant i archwilio a defnyddio dychymyg ei hunain gall hyn symud ymlaen i greu cysgodau gan ddefnyddio cyrff ei hunain i weld gwahanol siapiau o gysgod. Defnyddio geirfa fathemategol fwyaf i'r lleiaf, pa un yw'r hiraf/byrraf. Eto byddai hyn yn rhoi'r hyblygrwydd i'r plant i feddwl yn annibynnol ac i weithio fel tîm i greu siapiau gwahanol.

Nodwedd 2 –

Y nodwedd nesaf ydy os oes modd defnyddio ei chyrff i rolïo i lawr y rhyw. Rhoi'r cyfleoedd i'r plant i arbrofi os oes digon o lethr i rolïo'r holl ffordd i lawr. Gallwn yna alluogi'r plant i arbrofi beth sydd angen arnon ni i rolïo yn gyflymach? Wrth ychwanegu tarpolin, sebon a

dŵr mae hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant i arbrofi gyda'i chyrff ac i ddod i ddeall ffrithiant fel term gwyddonol. Annog trafodaeth ac i ddatrys problemau, oes modd i chi i rollo i fyny'r rhyw neu os nad oes modd gwneud hyn, defnyddio geirfa pam? Byddai hyn yn dechrau dealltwriaeth am ynni cinetig a disgyrchiant o pam bod pethau yn mynd i lawr y rhyw a dim i fyny'r rhyw. Gall y plant datrys problemau ei hunain i weld os oes modd i rollo rhywbeth arall i lawr y llethr. Gallwn ychwanegu blociau pren, peipen ddŵr, pelau bach a mawr, dŵr. Byddai hyn yn annog llawer o eirfa ac yn bwrw llawer o gamau cynnydd yn feysydd dysgu mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn rhoi cyfleoedd i ddatrys problemau ei hunain heb ormod o arweinyddiaeth. Wrth roi'r adnoddau yma i'r plant mae hyn yn rhoi cyfleoedd i fod yn annibynnol, wrth ddefnyddio sgiliau cymdeithasol mae hyn yn cryfhau'r syniadau a pherthynas rhwng y plant er mwyn gweithio fel tîm i gryfhau ei ddealltwriaeth o'r byd.

Gall hyn yna symud ymlaen at sut allwn ni wneud sŵn wrth ddefnyddio geirfa ynni. Annog i ddefnyddio gwahanol adnoddau i lawr y rhyw ac i arbrofi os oes yna wrthrych sydd yn creu sŵn. Wrth i'r plant arbrofi gall hyn darganfod gwahanol synau, rhai yn uchel/tawel neu rhai yn hirach/byrrach. Annog geirfa fathemategol a gwyddonol eto mewn ffordd naturiol sydd yn rhoi mwynhad yn y chwarae.

Nodwedd 3 -

Yn y llun uchod gwelwyd fod hyn yn cael ei dynnu yn yr Haf. Mi fyddai yn fuddiol i ymweld â'r safle yma ar wahanol dymhorau i weld beth sydd yn wahanol ym mhob llun? Oes yna liwiau gwahanol - Hydref i gymharu â Gaeaf? Mwy o dyfiant yn yr Haf nag yn y Gaeaf? Beth yw'r gwahaniaeth yn y tywydd? Oes dail ar y goeden? Oes blodau i'w gael ym mhob tymor? Cymharu'r tymhorau. Oes gwahanol anifeiliaid i'w weld yn yr Hydref i gymharu â'r Gwanwyn.

Mynd ati i gasglu gwahanol liwiau yn y cae, wrth ychwanegu papur gallent rwbio'r planhigion/blodau/mwd ar bapur. Trafodaeth pa liwiau gwnaethoch chi ffeindio? Ychwanegu siart lliw i gymharu â pharu gyda'r lliwiau fwyaf tebyg.

Yna mynd ati i adio chwyddwydr a gadael y plant i fynd ati i archwilio am bethau gwahanol. Pa bethau byw y gallwn weld yn y cae. Defnyddio cylchred bywyd lindysyn sydd yn troi i mewn i fili pala. Gall hyn cael ei glynu wrth fewn gyda'r llyfr 'Y lindysyn llwglyd iawn'.

Defnyddio deunyddiau natur er mwyn creu rhywbeth i'r anifeiliaid. Ydy'r plant yn gallu darganfod olion traed er mwyn annog y plant i ddefnyddio ei ddychymyg er mwyn rhannu syniadau pwy sydd yn byw yma. Beth sydd angen arnyn nhw i fyw? Beth allwch chi weld? Efallai fod angen creu tai bach i'r creaduriaid yma? Ychwanegu adnoddau naturiol, brigau, dail, mwd a dŵr. Sut allwn ni gwneud sment? Arbrofi gyda phowlenni, llwyau, dŵr a mwd er mwyn creu clai i wneud y tŷ i'r Draenog? Wrth ddefnyddio deunyddiau natur sydd yn y cae yn barod mae hyn yn pwysleisio ar ddysgu yn gyfannol sydd yn bwrw trawsgwricwlaidd.

Mae'r tair nodwedd uchod yn taro llawer iawn o'r camau cynnydd yn feysydd dysgu Mathemateg a Rhifedd Llywodraeth Cymru (2020ch) a'r camau cynnydd yn y meysydd dysgu Gwyddoniaeth a Thechnoleg Llywodraeth Cymru (2020c). Wrth roi'r cyfleoedd holistaidd trawsgwricwlaidd yma i'r plant mae hyn yn annog y plant i fynd ati i feddwl yn fathemategol a gwyddonol, ac i ehangu ei iaith i gyd-fynd a hyn. Gwelwyd hefyd fod y nodweddion uchod yn bwrw meysydd dysgu eraill ar draws y cwricwlwm a gwelwyd wrth wneud y tasgau yma gallwn gyflawni llawer iawn o gamau cynnydd i'r plant drwy'r Cwricwlwm Newydd i Gymru Llywodraeth Cymru (2020b).

Rhan 3 - Asesiad risg-budd

Location / Activity:	Cae	Date:	19 o Fedi 2021
Assessor:	Lowri Jones	Review date:	19 o Ionawr 2022

GWEITHGAR EDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd ?	Peryglon (risgiau) posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canoli g/Uchel
Tymhorau gwahanol – tywydd gwananol	-Gweld a sylwi ar wahanol dymhorau, sut mae'r natur yn newid wrth i'r tymhorsau newid. -Sylwi ar ble mae'r haul ar wahanol diwrnodau o'r dydd/mis/tymor. -Tywydd – annog geirfa – poeth, oer, sych, gwlyb, gwynto g -Defnyddio y tywydd fel weithgaredd meddylfyd – sut mae'r tywydd yn gwneud i chi deimlo – datblygiad emosiynol a llythrennedd. Pwysleisio ar les. -Bod yn ymwybodol o amgylchoedd o'i amgylch. Annog plant i'f od yn ymwybodol o berygl a bet hi osgoi.	-Gall y tywydd fod yn rhy boeth neu yn rhy oer i'r plant. Rhy boeth – llosgi yn wael, dadhydredig, twywyn haul. Rhy oer – ewinrhew, hypothermia. Enwedig os nad oes dillad priodol yn cael ei wisgo. -Bod yn rhy wlyb yn gallu achosi niwed emosiynol i fod yn anghyfforddus ac yn ddiflas. -Byddai gwyntoedd cryfion yn beryglus gyda'r coed mawr, gall hyn achosi difrod enfawr os byddai canghennau yn disgyn neu hyd yn oed gall y goeden fod yn anniogel. Byddai hyn yn achosi difrod a gall achosi marwolaeth. -	Plant ac oedolion	Byddwn yn monitro y tywydd cyn mynd i'r cae - nid i fynd o gwbl os oes gwyntoedd cryfion i od ac os ydy yn stormus. Ac os byddai tywydd twym byddai pwyslais fod plant yn gwisgo het haul ac eli haul, digon o gysgod, digon o ddŵr a bwyd. Ond nu fyddwn yn ymweld â'r cae os oes tywydd rhy boeth. Tywydd gyda bach o law - gwisgo dillad glaw, esgidiau glaw. Monitro nad yw'r plant yn gwlychu ac yn hapus yn y gweithgaredd.	I

GWEITHGAR EDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd ?	Peryglon (risgiau) posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canolig/Uchel
Cyfleoedd i fynd i archwilio y cae. Edrych am bethau natur a pethau byw.	-Cyfleoedd i ddysgu am bethau byw eraill. Pa fath o bethau sydd yn byw yn y cae. -Cyfleoedd i ddefnyddio dychymyg - chwarae rôl i hybu llythrennedd a chymdeithasol. -Plant yn dysgu am gylchoedd byw. -Cryfhau datblygiad corfforol - sgiliau echddygol bras a sgiliau echddygol manwl. Plant yn cerdded ac yn plygu/yrestyn. -Pwysigrwydd o garedigrwydd, i edrych ar ôl dynol byw arall. Er mwyn bod yn dinasyddion moesegol. Cefnogi hyn gyda sut allwn ni helpu'r anifeiliaid - dŵr, bwyd, cysgodfa. -Casglu deunyddiau – gwahaniaeth rhwng teimlad, pwysau, maint. -Cyfle i gasglu natur – dail, mes, moch y coed. Cyfri rhain, dysgu am gwerth y rhif.	-Risg o blanhigion sydd yn wenwynig neu yn llidus - y ddraenen du. Byddai rhai planhigion yn edrych fel math o fwyd a gall hyn fod yn ddryslyd i blant - madarch gwyllt. -Gall plant fynd ar goll a grwydro yn bell. -Gall plant dod o hyd i sbwriel, baw ci, gwydr pan ar antur. -Alergedd i bigiadau - gwenynen. -Gall brigau o'r goeden bwrw pen, brathu. Rhoi anafiadau i'r pen neu lygaid. -Wrth gasglu pethau mae hyn yn helpu Schemas ei huanin	Plant ac oedolion	. -Trafod cyn mynd i'r cae - pwysigrwydd fod yna rheolau dim i roi dim yn ei chegau ac i roi pwyslais o olchi dwylo ar ddiwedd y gweithgaredd. - Trafod cyn mynd beth all fod o berygl i ni - defnyddio lluniau ar bwerbwynt. Annog trafodaeth - dim i gyffwrdd a sbwriel, gwydr, baw ci ac i ddweud wrth oedolyn yn syth os gwelwyd y rhain. -Byddai oedolyn yn cerdded o amgylch y cae i edrych am unrhyw beth sydd yn beryglus i'r plant cyn y gweithgaredd. -Ymwybodol o ble allant fynd heb oedolyn, nid i fynd ym mhellach na'r fainc - trafod pwysigrwydd hyn cyn y gweithgaredd ac atgyfnerthu hyn gan ddangos y ffiniau yn glir i'r disgyblion. Byddai oedolyn o hyd yn aros ar y ffiniau. Esbonio nid i siarad gydag unrhyw un dieithr/anifeiliaid a thrafod perygl o hyn heb godi ofn. Pa weithdrefnau sydd yn ei le yn barod.	I

GWEITHGAR EDD	Sut fydd plant cael BUDD o'r weithgaredd ?	Peryglon (risgiau) posib	Pwy sydd mewn perygl (risg)?	RHAGOFALAU ar waith i leihau'r risg o anaf	Graddfa Risg: Isel/Canoli g/Uchel
Cerdded ar dir anwastad	Wrth i blant gerdded ar dir anwastad mae hyn yn helpu cydbwysedd blant, byddai hyn yn rhoi cyfleoedd i'r plant i ddod i adnabod ei chyrff ei hunain. Dod i ddeall a chael rheolaeth o'i chyrff ei hunain. Mae'r gweithgaredd yma yn rhoi siawns i blant i ddeall term gwyddonol ynni a deal grymoedd. Er mwyn deal ydy rhywbeth yn gallu rholio i fyny neu dim ond i lawr. Cyfleoedd i gryfhua datblygiad corfforol fel sgiliau echddygol bras ac i annog hyder.	Risg y dasg ydy bod modd i'r plant i gwympo a baglu ar y tir anwastad a gall hyn achosi briw, clais, ysgiad neu anafiadau mwy difrifol i'r corff fel toriad asgwrn.	Plant ac oedolion	Trafod gyda'r plant cyn y gweithgaredd, chwarae gêm gyda'r plant. I gerdded yn araf iawn fel llygodyn yn gyntaf cyn ymgeisio i redeg yn gyflym fel ysgyfarnog. Canu cân i hwyluso ac i ymlacio rhagofn fod rhai plant yn ofnus ac yn bryderus. Gwneud yn siŵr fod plant yn gwisgo dillad addas - trowsus hir, crys-t a llawes hir ac esgidiau glaw.	I
Cymysgu dŵr a mwd i wneud clai	Rhoi profiadau amlsynhwyraidd, cael cyfleoedd i ddefnyddio ei ddwylo er mwyn cymysgu'r mwd a dŵr gyda'r gilydd. Defnyddio sgil gwyddonol wrth gymysgu'r dŵr a mwd i weld beth sydd yn digwydd, oes gormod o ddŵr neu dim digon. I arbrofi yn annibynnol.	Risg bod yna rhywbeth peryglus yn y mwd sydd yn gallu creu anaf. Gwydr – torri croen a gwneud briw dwfn.	Plant ac oedolion	Gwneud yn siŵr fod yr ardal mwd yn cael ei gwirio cyn y gweithgaredd i wneud yn siŵr nad oes unrhyw beth peryglus yn y mwd. Trafod gyda phlant i roi gwybod i oedolyn os byddant yn gweld rhywbeth annisgwyl.	I
Rholio i lawr y rhyw gyda dŵr a tharpolin	Cyfleoedd i arbrofi gyda chyrff ei hunain, er mwyn dysgu a deall beth yw gwir ystyr ffrithiant. Arbrofi sut i fynd yn gyflymach ac os oes modd i rollo i fyny y rhyw.	Mae risg yma bod y plant yn taro yn erbyn ei gilydd ac yn cael anaf i'r corff – briw, clais a bwrw pen pan yn rollo. Risg fod y plant yn oeri tra yn gwneud y weithgaredd – i deimlo yn annifyr a ddiflas.	Plant	Byddai angen trafod cyn y dasg beth yw'r rheolau ac i wneud yn siŵr fod y plant yn cymeryd tro. I ddeall mae un ar y tro yn unig. Byddai athrawes yno hefyd yn arsylwi ar y plant er mwyn gwneud y weithgaredd mor hwylus ag sy'n bosibl. Bydd y dasg yn cael ei gyflawni ar ddiwrnod poeth i osgoi unrhyw oeri.	I

Rhan 4 –

Credai Froebel yn ôl Tovey (2017) fod yr amgylchedd tu allan yn hanfodol o fod yn lle ac ardal sydd yn rhoi'r cyfleoedd i blant i ddysgu ac i dyfu yn amser ei hunain. Gwelwyd fod pwysigrwydd fod yr oedolyn yn amyneddgar ac yn barod i helpu'r plentyn ond yn amser ei hunain er mwyn galluogi dysgu yn naturiol a holistaidd. Dywedai Froebel yn ôl Tovey (2020) fod arweiniad cadarnhaol yn rhan allweddol ac mae drwy'r oedolyn mae'r plentyn yn dysgu gorau. Dylai plant cael ei feithrin gan yr oedolion sydd o'i amgylch, er mwyn cael y fagwraeth gadarnhaol i greu plant gweithgar, chwilfrydig a chreadigol sydd yn glynu gyda Y Pedwar Diben gan Lywodraeth Cymru (2015). Credai Llywodraeth Cymru (2015) fod y pedwar diben yma i gyd-fynd a Chwricwlwm i Gymru er mwyn creu gweledigaeth bositif a chadarnhaol i ddyfodol y plant, fod pwrpas i rôl yr oedolyn yn yr ysgolion. Credwyd fod angen creu plant sydd yn barod ac yn hapus i ddysgu ond chredai Froebel yn ôl Mickelburgh (2010) fod angen i'r oedolion rhoi y gwagle priodol yma i'r plant er mwyn iddynt allu ehangu ei gwybodaeth o'r byd. Dywedai fod Froebel yn credu yn gryf fod angen i'r plant i greu perthynas a'r natur, i gael cariad tuag at y natur, teimlai fod tyfiant plentyn fel tyfiant oedolyn a bod angen caredigrwydd a thynnerwch tuag at y plant fel y byddai garddwr yn gofalu am ei hadau yn ei gerddi. Cysylltwyd hyn yn gryf gyda maes dysgu gwyddoniaeth a thechnoleg yn dilyn cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru (2020c).

Yn ôl Joyce (2012) dysgai Froebel wrth ddamcaniaethwr Pestalozzi, dywedai fod Froebel yn ei edmygu ac ei fod yn enwog am roi lawer o syniadau i Froebel. Credai fod angen i blant i ddysgu yn ymarferol er mwyn creu gwybodaeth concrit, ond dywedai Joyce (2012) nad oedd theori Pestalozzi yn ddigon gwyddonol ac roedd diffyg perthynas gyda'r cartref ar ysgol yn ei addysg. Credai Pestalozzi yn ôl Inan a Inan (2015) fod yn aml iawn bod y syniad yma o ddefnyddio y llaw, calon a phen yn cael ei ddefnyddio ar wahân a bod angen ymuno y tri yma i weithio gyda'i gilydd i greu gwybodaeth eang ac i ddatblygu addysg wyddonol. Ystyr tu ôl y theori yma ydy i fod yn ymarferol wrth ymchwilio yn y gweithgaredd sydd o ddiddordeb i'r unigolyn. Gwelwyd os nad oes diddordeb a mwynhad yn y chwarae nad yw'r plentyn yn datblygu yn y meysydd dysgu drawsgwricwlaidd. Cafodd Froebel ei ysbrydoli gan theori dull plentyn canolog Pestalozzi ond anghytunai Froebel gyda'r cyfeiriad yr aeth Pestalozzi yn ôl Joyce (2012). Dywedwyd fod Froebel yn cytuno ac yn cefnogi theori Pestalozzi a hefyd y damcaniaethwr Rousseau fod y natur ac yr amgylchedd naturiol yn dylanwadu yn fawr iawn ar chwarae plant tu allan, ac ei fod yn rôl bendant a phositif yn addysg plant. Cytuna Flanagan (2006) a hyn a dywedai fod Froebel, Rousseau a Pestalozzi yn cytuno gyda'i gilydd taw y fam ydy yr athrawes gyntaf ym mywyd y plentyn

ond chredai Rousseau a Pestalozzi fod yr ysgol ar gartref yn wahanol iawn ac y dylai cadw y ddau yma ar wahân.

Anghytuna Froebel a hyn yn ôl Flanagan (2006) dywedai fod angen i'r ysgol a'r cartref i weithio gyda'i gilydd er mwyn ehangu ac adeiladu gwybodaeth naturiol y plentyn. Cytuna Froebel fod angen gweithio yn agos gyda'r cartref sydd yn debyg iawn i Reggio Emilia yn ôl Learning and Teaching Scotland (2006) i fod yn rhan o gymuned ac mae yr amgylchedd ydy y trydydd person ym mywydau'r plant.

Gwelwyd yn ôl Learning and Teaching Scotland (2006) mae rôl yr oedolion ydy i arwain y plant yn y ffordd gywir i fwynhau dysgu ac i bwysleisio ar hyn yn yr awyr agored wrth fwynhau gweithgareddau sydd yn annog y dysgu mathemategol a gwyddonol mewn ffordd holistaidd a naturiol. Credai Froebel yn ôl Bruce (2012) fod angen i addysg fod yn ganolog i'r plentyn a chredai fod angen i'r oedolyn cymryd naid yn ôl pan mae'r plant tu allan yn archwilio yn yr awyr agored, dywedai mai rôl yr ymarferydd ydy i helpu ac i ychwanegu iaith neu adnoddau pan fod yr angen. Credai Froebel yn athroniaeth sydd yn seiliedig ar chwarae yn unig, credai Froebel fod rhoi anrhegion i blant er mwyn ehangu ei chwarae. Yn hytrach na chyflwyno gwers sydd yn benodol i ddiddordebau'r ymarferydd, mae hyn yn ffordd o roi ychydig o fewnbwn oedolyn heb roi arweiniad pendant i'r plentyn. I annog i feddwl yn annibynnol ac i greu gweithgaredd sydd yn hunan cyfeiriedig. Gwelwyd fod hyn yn atgyfnerthu meysydd dysgu yn bennaf mathemateg yn ôl Llywodraeth Cymru (2020ch) a gwyddoniaeth yn ôl Llywodraeth Cymru (2020c) ac i annog y plentyn i ddatrys problemau ac i ddefnyddio ei ddychymyg yn greadigol. Cytuna Gibson a hyn yn ôl MA Education (2016) a dywedwyd fod potensial enfawr ar wrthrychau neu nodwedd sydd yn galluogi y plentyn i ddefnyddio y gwrthrych yna ffordd ei hunain o feddwl. I feddwl yn annibynnol heb arweiniant na llythrennedd oedolyn i ddweud beth, sut a pam dylen nhw wneud rhywbeth penodol gyda'r gwrthrych yma. Mae hyn yn annog i feddwl ac i ddatrys problemau drwy ffordd naturiol o chwarae, chwarae o dan arweinyddiaeth y plentyn ond mae yna rôl oedolyn yna mewn ffordd sydd ddim yn amlwg i'r plentyn. Pwysigrwyd o hyn ydy i wneud y chwarae mor holistaidd a naturiol a phosib mewn amgylchedd sydd yn osteg a tawel i'r plentyn i allu datblygu creadigrwydd a dychymyg ei hunain sydd yn glynu wrth fewn gyda'r pedwar diben gan Lywodraeth Cymru (2015) ac yn bwrw camau cynnydd yn gryf yn y meysydd dysgu gwyddonol a mathemategol. (Llywodraeth Cymru, 2020c a Llywodraeth Cymru, 2020ch).

Gwelwyd yn ôl Montessori Guide (2021) mae y rôl yr ymarferydd ydy i arwain y plant i roi dechreuad da a chefnogol, fod yna pwysigrwydd fod gan yr ymarferydd y wybodaeth briodol sydd angen i'r plentyn er mwyn adeiladu ar ei gwybodaeth nhw ei hunain. Tebyg iawn i theori Vygotsky yn ôl Popkewitz (1998) fod angen yr ymarferydd o amgylch y plant er mwyn allu adeiladu ar wybodaeth i ddatblygiad y plentyn. I roi'r gefnogaeth gywir i ddatblygiad y plentyn i fwrw camau cynnydd yn y meysydd priodol, i wneud hyn mae gan yr ymarferydd y cyfrifoldebau i roi yr adnoddau priodol naturiol i'r plentyn. Cytunai Chwarae dysgu tyfu (2008) a hyn a dywedai mai'r plentyn ydy gwreiddyn y dysgu a dylai'r dysgu digwydd o dan arweiniad y plentyn.

Chytuna All Party Parliamentary Group for Maths & Numeracy (2014) er mwyn chreu datblygiad yn fathemategol maen pwysig fod yr amgylchedd tu allan yn briodol er mwyn gwella ac annog ei ddatblygiad mewn gweithgareddau chwarae. Awgrymai yn gryf fod pwysigrwydd i weithio mewn partneriaeth agos a'r cartref er mwyn cael cyfleoedd a dechreuad gorau i fywyd y plentyn. Cysylltwyd gyda Reggio Emilia yn ôl Learning and Teaching Scotland (2006) fod pwysleisiais bositif i'w gael wrth weithio gyda'r gymuned agos er mwyn defnyddio y gymuned fel trydydd person ym mywydau y plant. I weithio gyda'i gilydd fel ysgolion, teuluoedd a'r gymuned eang mae hyn yn adeiladu ar wybodaeth a datblygiad y plentyn fel yn ôl theori Vygotsky Popkewitz (1998) fod rôl yr oedolyn yn hynod o bwysig ym mywyd plentyn ac mae wrth hyn mae'r plentyn yn dysgu. Gwelwyd hyn yn glynu gyda Chwricwlwm Newydd i Gymru Llywodraeth Cymru (2020a) i fod yn rhan o gynefin sydd yn ymchwilio ei bywydau nhw fel unigolion ac ei hardal nhw er mwyn creu dysgwyr sydd yn ddinasyddion egwyddorion gwybodus yng Nghymru.

Gwelwyd wrth ddilyn Reggio Emilia Approach (2020) pwysleisiwyd fod y plentyn yn dysgu drwy gant o ieithoedd gwahanol a bod y plentyn yn wreiddyn y dull yma o ddysgu. Cytunwyd fod adnoddau rhydd yn uno gyda dull Reggio Emilia, gwelwyd yn ôl Nicholson (1971) fod y dull yma o rannau rhydd yn cefnogi chwarae creadigol a ddychmygus. Y pwysigrwydd o chwarae gyda deunyddiau sydd yn agored i greadigrwydd yr unigolyn yn unig er mwyn annog chwarae eang iawn sydd yn bwrw camau cynnydd trawscwrwclaid. Dydy rhannau rhydd ddim yn uniongyrchol yn datblygu chwarae creadigol a ddychmygus mae hyn yn hybu datblygiadau sut i ddatrys problemau sydd yn hybu a chyflawni meysydd dysgu mathemateg a rhifedd yn ôl Llywodraeth Cymru (2020ch) a gwyddoniaeth a thechnoleg yn ôl Llywodraeth Cymru (2020c).

Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) mae datrys problemau yn rhan hanfodol o'r Cwricwlwm Newydd i Gymru a dyma sut mae creu plant i feddwl yn greadigol. Chytuna Jung (2021) a dywedai wrth am blant chwarae gyda rhannau rhydd maent yn ei alluogi i chwarae gydag adnoddau sydd yn amlsynhwyrdd. Byddai cael adnoddau rhannau rhydd llwyddiannus yn cefnogi ymddygiadau Schemas y plant, yn ôl Thornhill (2015) gall hyn fod yn schemas sydd ddim yn amlwg iawn neu gall hyn helpu plant sydd a schemas gryf. Cytunwyd Atherton a Nutbrown (2015) a hyn a dywedwyd fod angen dealltwriaeth ddwys ar bwysigrwydd addysgeg schematic er mwyn helpu plentyn i ddatblygu yn ffordd ei hunain. Gall hyn annog y datblygiad personol yn gryf os ydy'r schemas yma yn cael ei estyn, bod diddordeb gan yr unigolyn yn y dysgu unigryw yma, er mwyn creu datblygiadau cryf sydd yn uno ar draws y cwricwlwm. Credwyd fod angen creu gweithgareddau sydd yn uniongyrchol i'r unigolyn er mwyn adeiladu plentyn i fod yn greadigol ac yn gryf ym mhob maes dysgu.

Mae llawer iawn o fuddion i chwarae a darganfod yn yr awyr agored ac yn ôl Manning (2019) dywedai fod chwarae yn yr awyr agored yn rhoi llawer o fuddion positif a chadarnhaol yn gorfforol, gwybyddol, cymdeithasol ac yn helpu iechyd a lles yr unigolion. Credai fod angen adnoddau pwrpasol sydd yn naturiol er mwyn creu cyfleoedd sydd yn holistaidd ac yn amlsynhwyrdd sydd yn bwrw camau cynnydd trawsgwricwlaidd. Cytunai Aubrey a Riley (2019) gyda theori Montessori, dywedai fod angen rhoi'r cyfleoedd yma i'r plant i allu arwain y gweithgareddau naturiol a holistaidd yn annibynnol ac mae rôl yr oedolyn ydy i greu adnoddau cadarnhaol naturiol tu allan er mwyn datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd. Yn ôl Aubrey a Riley (2019) gwelwyd fod pwysigrwydd o roi cyfleoedd agored tu allan a bod hyn yn ddull effeithiol iawn gan Montessori. Awgrymai mai rôl yr oedolyn ydy rhoi gwagle er mwyn annog y plentyn i arwain y chwarae, i ddatrys problemau ei hunain ac i fentro tu allan yn yr awyr agored. Dywedwyd wrth adael y plant i wneud hyn mae hyn yn datblygu ar ei ddealltwriaeth yn wyddonol ac yn fathemategol wrth hefyd bwrw datblygiadau hunan hyder, corfforol a llythrennedd.

Gwelwyd hyn yn glir yn y Cwricwlwm Newydd i Gymru Llywodraeth Cymru (2020b) fod angen cynllunio gweithgareddau sydd yn llawn cyfleoedd cadarnhaol holistaidd i blant, sydd yn anelu at gamau cynnydd ar draws y cwricwlwm ac nid i gynllunio gweithgaredd i fwrw un maes dysgu yn unig. Gwelwyd pwysigrwydd fod hyn i gyd yn glynu at ei gilydd i wneud plant hyderus, mentrus a chreadigol. (Llywodraeth Cymru, 2015). Cytuna Howard a Mcinnes (2012) fod angen rhoi gwagle i alluogi fod y plant yn mynd ati i arbrofi yn

annibynnol a bod hyn yn adeiladu ar y cysylltiadau rhwng y dysgu a'r chwarae. Awgrymai pan fod oedolyn yn ymyrryd ar weithgaredd fod hyn yn gallu achosi difrod i'r math holistaidd o chwarae. Teimlwyd yn gryf fod dysgu drwy chwarae yn adeiladu ar ddatblygiadau positif ar draws y cwricwlwm sydd yna yn ddatblygiad naturiol o fynd ati i adeiladu ar eirfa, gwybodaeth a datblygiad sydd yn taro ar draws y meysydd dysgu yn gryf.

Gwelwyd fod yna gyfuniad o ddulliau y damcaniaethwyr yn dylanwadu yn gryf yn Cwricwlwm Newydd i Gymru Llywodraeth Cymru (2020b). Credwyd wrth roi y cyfleoedd yma i'r plant mae hyn yn adeiladu ar wybodaeth choncrit sydd yn taro maes dysgu Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ôl Llywodraeth Cymru (2020c) a maes dysgu Mathemateg a Rhifedd yn ôl Llywodraeth Cymru (2020ch).

Cyfeirnodï –

All Party Parliamentary Group for Maths & Numeracy (2014) *Maths and numeracy in the early years*, Ar gael: <https://nrich.maths.org/content/id/11441/APPG%20paper%20-%20EYs.pdf> (Gwelwyd: 5 o Fedi 2021).

Aubrey, A a Riley, A (2019) *Understanding and using Educational Theories*. Reading: SAGE Publications Ltd, Ar gael: <https://us.sagepub.com/en-us/nam/understanding-and-using-challenging-educational-theories/book250190> (Gwelwyd: 10 o Orffennaf 2021).

Borrow my Garden (dim dyddiad) *Rent a field*, Ar Gael: <https://www.borrowmygarden.co.uk/rent-a-field/> (Gwelwyd: 21 o Fedi 2021).

Bruce, T (2012) *Early Childhood Practice : Froebel Today*, SAGE Publications, Ar Gael: <https://web-a-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/ebookviewer/ebook/bmxlYmtfXzQ3MjQ1OV9fQU41?sid=2eb44f8b-f153-4c2a-adca-92f66a563b9a@sdC-v-sessmgr03&vid=0&format=EB&rid=1> (Gwelwyd: 20 o Fedi 2021).

Chwarae tyfu dysgu (2008) *Learning and Teaching Pedagogy*, Ar gael: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/454579/mod_resource/content/0/learning-and-teaching-pedagogy.pdf (Gwelwyd: 10 o Fedi 2021).

Flanagan, F (2006) *The Greatest Educators Ever*, Continuum International Publishing Group, Ar Gael: <https://web-a-ebSCOhost-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/ebookviewer/ebook/bmxlYmtfXzI0Mjk1NF9fQU41?sid=1c>

9b9798-533b-4b9b-9c05-48f82de7d7b3@sdv-sessionmgr03&vid=0&format=EB&rid=1
(Gwelwyd: 17 o Fedi 2021).

Howard, J a McInnes, K (2012) 'The impact of children's perception of an activity as play rather than not play on emotional well-being', *Child: Care, Health and Development*, Vol. 39, No.5, tud. 737-742. Ar gael: <https://web-a-ebscohostcom.ezproxy.uwtsd.ac.uk/ehost/detail/detail?vid=0&sid=8ca68df6-f5db-4e69-9ce6-95195915522c%40sessionmgr4006&bdata=JnNpdGU9ZWwhvc3QtbGl2ZQ%3d%3d#AN=89730685&db=eue> (Gwelwyd: 9 o Fedi 2021).

Inan, H.Z a Inan, T (2015) '3Hs Education: Examining hands-on, heads-on and hearts-on early childhood science education', tud. 1974-1991, Ar Gael: <https://www-tandfonline-com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/full/10.1080/09500693.2015.1060369> (Gwelwyd: 19 o Fedi 2021).

Joyce, R (2012) *Outdoor learning: past and present*, Open University Press, Ar Gael: <https://r4.vlereader.com/Reader?ean=9780335243020> (Gwelwyd: 20 o Fedi 2021).

Jung, C (2021) *Play Scotland Loose Parts, Scotland Play Strategy*, Ar Gael: <https://www.playscotland.org/wp-content/uploads/Play-Scotland-Loose-Parts-Leaflet.pdf> (Gwelwyd: 11 o Fedi 2021).

Learning and Teaching Scotland (2006) *The Reggio Emilia Approach to Early Years Education*, Early Education Support, Ar Gael: https://education.gov.scot/nih/Documents/ELC/ELC35_ReggioEmilia/ELC35_ReggioAug06.pdf (Gwelwyd: 20 o Fedi 2021).

Llywodraeth Cymru (2015) *Pedwar Diben i Cwricwlwm i Gymru*, Ar Gael:

<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/pedwar-diben-y-cwricwlwm-i-gymru.pdf> (Gwelwyd: 6 o Fedi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020a) *MAES DYSGU A PHROFIAD Y Dyniaethau*, Ar Gael:

<https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/> (Gwelwyd: 10 o Fedi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020b) *Canllawiau Cwricwlwm i Gymru*, Ar Gael:

<https://hwb.gov.wales/api/storage/b0e91f7c-0050-47b6-9b23-0273d39df9f3/canllawiau-cwricwlwm-i-gymru-070220.pdf> (Gwelwyd: 5 o Fedi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020c) *MAES DYSGU A PHROFIAD Gwyddoniaeth a Thechnoleg*,

Ar Gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/gwyddoniaeth-a-thechnoleg/disgrifiadau-dysgu/> (Gwelwyd: 7 o Fedi 2021).

Llywodraeth Cymru (2020ch) *MAES DYSGU A PHROFIAD Mathemateg a Rhifedd*, Ar

Gael: <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/mathemateg-a-rhifedd/disgrifiadau-dysgu/> (Gwelwyd: 7 o Fedi 2021).

MA Education (2016) *Possibilities on Offer*, Ar Gael:

<https://www.earlyyearseducator.co.uk/features/article/possibilities-on-offer> (Gwelwyd: 21 o Fedi 2021).

Manning, J (2019) *New report highlights the importance of outdoor play*, Ar gael:

<https://www.nationalgeographic.co.uk/history-and-civilisation/2019/01/new-report-highlights-importance-outdoor-play> (Gwelwyd: 9 o Orffennaf 2021).

Mickelburgh, J (2010) *Educational Pioneers: Friedrich Froebel, 1782-1852*, Foundation Stage Forum, Ar Gael: <https://eyfs.info/articles.html/teaching-and-learning/educational-pioneers-friedrich-froebel-1782-1852-r44/> (Gwelwyd: 20 o Fedi 2021).

Montessori Guide (2021) *Capturing Ordinary Days: The Role of the Adult*, Ar gael: <https://montessoriguide.org/the-role-of-the-adult/> (Gwelwyd: 11 o Fedi 2021).

Nicholson, S (1971) 'How Not to Cheat Children The Theory of Loose Parts', Vol 62, Tud. 30 – 34, Ar Gael: <https://media.kaboom.org/docs/documents/pdf/ip/Imagination-Playground-Theory-of-Loose-Parts-Simon-Nicholson.pdf> (Gwelwyd: 20 o Fedi 2021).

Popkewitz, T.S (1998) 'Dewey, Vygotsky, and the Social Administration of the Individual: Constructivist Pedagogy as Systems of Ideas in Historical Spaces', Vol 35, Issue 4, Ar Gael: <https://journals.sagepub.com/doi/abs/10.3102/00028312035004535> (Gwelwyd: 21 o Fedi 2021).

Reggio Emilia Approach (2020) *Reggio Emilia Approach*, Ar Gael: <https://www.reggiochildren.it/en/reggio-emilia-approach/> (Gwelwyd: 15 o Fedi 2021).

Thornhill, M (2015) *Loose Parts and Intelligent Playthings Categorized By Schema*, Wander Wild Wonder, Ar Gael: http://mthornhill.weebly.com/uploads/6/3/4/0/63404993/loose_parts_by_schema.pdf (Gwelwyd: 22 o Fedi 2021).

Tovey, H (2017) *Outdoor Play and Exploration*, Froebel Trust, Ar Gael: <file:///C:/Users/Teacher/Downloads/FT%20%20Outdoor%20Play%20Pamphlet.pdf> (Gwelwyd: 17 o Fedi 2021).

Tovey, H (2020) *Froebel's Principles and Practice Today*, Froebel Trust, Ar Gael: [file:///C:/Users/Teacher/Downloads/FT%20Froebels%20principles%20and%20practice%20today%20\(1\).pdf](file:///C:/Users/Teacher/Downloads/FT%20Froebels%20principles%20and%20practice%20today%20(1).pdf) (Gwelwyd: 17 o Fedi 2021).

